

Y Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a Diben

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn trefniadau talu'n ôl a wneir gan berson sy'n gwneud hawliad o dan adran 63 (hawlio rhyddhad rhag treth a ordalwyd) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Yn ogystal, mae rheoliad 6 yn disgrifio'r cofnodion y mae'n rhaid i'r hawlydd eu cadw mewn perthynas â'r trefniadau talu'n ôl, ac mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaethau mewn cysylltiad â chosbau (cosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion a threfniadau talu'n ôl).

Y weithdrefn

2. Negyddol.

Craffu ar Rinweddau Negyddol

3. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Amcanion polisi

Datganiad ar y bwriad polisi

4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y **bwriad polisi** o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil.
5. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd **yn cyd-fynd** â pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.
6. Nododd fod Adran 64(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau "wedi'u cynllunio i atal ad-daliadau treth gordaledig lle nad yw'r person trethadwy wedi talu cost y dreth a ordalwyd yn wirioneddol."



7. Mae adran 67(3) yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau i bennu cofnodion penodol neu ddogfennau ategol y mae'n rhaid eu cadw i berson hawlio ad-daliad ar gyfer treth a ordalwyd.

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

8. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad

9. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

10. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Rheoliadau yn yr Alban

11. Mae'r holl rheoliadau yn gyson â'r rhai hynny sydd yn y Rheoliadau Deddf Refeniw yr Alban a Phwerau Treth (Trefniadau Ad-dalu) 2015.

Rheoliadau'r DU

12. Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â threfniadau ad-daliad yn gyson â'r rheiny mewn offerynnau statudol sy'n ymwneud â threth y DU fel Rheoliadau Treth Tirlenwi (Diwygio) 1998.
13. Cynhwysir cosbau sy'n ymwneud â chydymffurfio â threfniadau ad-dalu mewn amryw o Ddeddfau Cyllid y DU. Mae gwahaniaeth rhwng cosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion yn neddfwriaeth y DU a'r cosbau a gynigir yn rheoliadau Cymru. Mae deddfwriaeth y DU yn pennu cosb o £250 am fethu â chadw cofnodion priodol mewn perthynas â'r dreth tirlenwi, tra byddai cosb gwerth hyd at £3,000 ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei adlewyrchu rhwng y Dreth Trafodiadau Tir a Threth Dir y Dreth Stamp (SDLT) oherwydd ni fyddai cosbau sy'n ymwneud â chadw cofnodion ar gyfer y ddwy dreth yn fwy na £3,000.
14. Mae yna hefyd ddiffyg tystiolaeth ar gael yn ymwneud â'r cosbau a'r amserlenni ar gyfer gwneud ad-daliadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) (fel y nodir ar



gyfer ad-daliadau i Awdurdod Cyllid Cymru yn rheoliad 5). O ganlyniad, ni ellir cymharu rheoliad 8(2) â deddfwriaeth gyfatebol y DU.

Ymateb y Llywodraeth

15. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad ac yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn. O ran y datganiad o fwriad y polisi, dylid nodi y dylai'r cyfeiriad at "adran 64(1)" fod yn gyfeiriad at "adran 66(1)" ac y dylai'r cyfeiriad at "adran 67(3)" fod yn gyfeiriad at "adran 69(3)".

Safbwynt y Pwyllgor

16. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

